Bwrdd Gweithredol Tŷ'r Cwmnïau - cofnodion cryno – 21 Ebrill 2009

Y Map Ffyrdd Strategol
Er mwyn sicrhau bod proses sefydledig ar gael i barhau i ddiweddaru'n map ffyrdd wrth inni symud tuag at gyrraedd ein nodau strategol, cytunodd y Bwrdd y dylai'r map ffyrdd strategol gael ei integreiddio yng nghynllun y portffolio newid ac y bydden nhw'n cael eu rheoli gyda'i gilydd drwy un broses. Câi'r cynllun ei adolygu gan y Bwrdd bob chwarter.

Strategaeth Cyllid a Ffioedd
Roedd y papur a gyflwynwyd i'r cyfarfod yn ddilyniant i'r drafodaeth y mis diwethaf ar y Strategaeth ffioedd. Amlinellodd y papur rai o'r nodau, yr egwyddorion a'r rheolau a fyddai'n sail i'r Strategaeth Gyllid.

Adroddiad Blynyddol Drafft 2008 / 09
Cyflwynwyd y drafft cyntaf o Adroddiad Blynyddol 2008 / 09 i'r cyfarfod. Yn ystod y drafodaeth cynigiodd y Bwrdd sawl awgrym / gwelliant a fyddai'n cael eu hymgorffori yn y ddogfen.

Diweddariad am Feicro-endidau
Awgrymodd cyfarfod a oedd wedi'i gynnal yn ddiweddar yn BERR nad oedd yr aelod-wladwriaethau'n cytuno ar y cynnig eto. Fe allai cyfarfod arall o'r CE gael ei gynnal ym mis Mai / Mehefin. Yn ychwanegol, byddai trafodaethau'n cael eu cynnal gyda chynrychiolwyr yr EBR a'r ECRF i bwyso a mesur eu barn nhw.

Rhaglen y Ddeddf Cwmnïau (CAP)
Roedd y drafft cyntaf o reolau'r Cofrestrydd wedi dod i law; roedd y canllawiau allan at ddibenion sicrhau ansawdd; roedd newidiadau yn y ffurflenni'n dod ymlaen yn dda ac roedd llawer o drafodaethau 'unioni' wedi'u cynnal gan nodi deilliannau addas. Roedd yr is-ddeddfwriaeth yn cyd-fynd â'r amserlen hefyd.

Diweddariad am STAR
Byddai hysbysiad yn cael ei roi i'r staff i esbonio'r newidiadau yn y rhaglen a'r newid enw i e100. Byddai profion E-PROOF yn dechrau yng nghanol mis Mai ac roedd y gwaith cynllunio manwl ar EECP wedi dechrau. Roedd y gwaith ar Business Link wedi'i gwblhau.

Diweddariad am y Bwrdd Busnes Asiantaeth (ABB) a'r Cerdyn Sgorio Misol ar gyfer Mis Mawrth
Darparwyd y diweddariad misol i'r Bwrdd gan yr ABB. Nododd y Bwrdd fod y Cydymffurfio wedi cyrraedd y lefelau gorau erioed ym mis Mawrth (97.7% o ran cyfrifon, 96% o ran ffurflenni blynyddol). Gostyngodd boddhad y cwsmeriaid o dan 85% yn chwarter cyntaf 2009 oherwydd problem ar Cyswllt Tŷ'r Cwmnïau. Ond roedd hynny wedi cael ei gywiro wedyn.

Ystadegau Llwyth Gwaith
Uchafbwyntiau mis Mawrth oedd: bod lefel uchel o ymgorfforiadau wedi dod i law (34k) ar gyfer y mis; bod y diddymiadau wedi codi hefyd (64k) oherwydd effeithiau DEF STAT a'r gostyngiad yn nifer y cwmnïau gwasanaethu rheoledig. Yn gyffredinol, cafwyd gostyngiad o 30k o gwmnïau ar y Gofrestr. Roedd yn debyg y byddai'r Gofrestr yn parhau i grebachu dros yr ychydig fisoedd nesaf.

Perfformiad Ariannol
Cafodd Pecyn Adroddiadau Ariannol Misol mis Mawrth ei gylchredeg i'r aelodau er gwybodaeth.

Adolygiad o Risgiau Critigol y Bwrdd Gweithredol
Adolygodd yr aelodau y gofrestr risgiau gyfredol, gan gytuno i newid statws rhai o'r risgiau a oedd wedi'u rhestru. Gan y byddai'r targedau cyhoeddus yn cael eu harchwilio gan yr ABB bob mis, cytunodd yr Aelodau y dylai'r cyfrifoldeb orwedd yn nwylo perchennog y risg a'i uwchraddio i'r ABB yn y lle cyntaf.

Ysgrifenyddiaeth Tŷ'r Cwmnïau
Ebrill 2009